# Creu effaith brosthetig

## Trosolwg

Mae’r safon hon a wnelo â chreu prosthetig i’w ddefnyddio mewn cynhyrchiad.

Mae’n ofynnol bod gennych chi’r wybodaeth a’r gallu i greu prosthetigau a dealltwriaeth drylwyr o’r peryglon sydd ynghlwm.

Mae angen ichi allu cynllunio, cerfio, mowldio, rhedeg a gosod prosthetigau. Bydd angen ichi weithio mewn cydweithrediad â gwahanol staff cynhyrchu, yn bennaf gydag adrannau gwisgoedd, celfi a styntiau er mwyn cyflawni’r effaith benodol.

Mae’r safon hon ar gyfer y rheiny sy’n creu a gosod prosthetigau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cysylltu gyda phobl ac adrannau priodol ynghylch anghenion prosthetig
2. ymchwilio i effeithiau prosthetig go iawn a phriodol
3. creu prosthetigau sy'n cwrdd â'r brîff, cyllideb a gofynion cynhyrchu
4. paratoi creiddiau a chastiau sy'n addas i weithio â nhw
5. gwneud gwaith mowldio a chastio terfynol ar ddarnau prosthetig gan ddefnyddio deunyddiau priodol er mwyn cwrdd â gofynion y cynhyrchiad
6. darparu dogfennaeth sy'n amlinellu gweithdrefnau diogelwch angenrheidiol
7. cynnal diogelwch y cast a'r criw
8. cael gafael ar a defnyddio celfi toradwy yn ôl y gofyn
9. sicrhau bod unrhyw fygydau tân gaiff eu defnyddio wedi'u gwneud o drwch penodol ac yn hawdd eu rhyddhau
10. cysylltu a gweithio mewn cydweithrediad gyda phobl berthnasol i sicrhau bod pob effaith brosthetig yn ddiogel
11. monitro pobl sy'n defnyddio prosthetigau er mwyn sicrhau nad oes adweithiau alergaidd, newidiadau eithafol yn nhymheredd y corff neu effaith ar eu gallu i weithio'n hawdd
12. gweithredu heb oedi ac yn unol â chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch os bydd digwyddiad sy'n gysylltiedig â phrosthetig yn digwydd ar set neu mewn gweithdy
13. tynnu prosthetigau yn unol â gofynion diogelwch
14. darparu dewisiadau eraill yn unol â gofynion y cynhyrchiad a'r gyllideb os nad oes modd cynhyrchu prosthetigau i'r dyluniad neu gyllideb gwreiddiol
15. cofnodi pob agwedd o asesiad risg a rheoli risg

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gyda phwy i gysylltu yn y cynhyrchiad, ac yn arbennig adrannau gwisgoedd, celfi, effeithiau arbennig a styntiau ynglŷn â'r prosthetigau sydd eu hangen a'r gofynion diogelwch ar eu cyfer
2. toriadau, sgraffiniadau, briwiau a'r corff
3. sut i ddefnyddio cynnyrch gwaed ffug a rigiau gwaed
4. tymheredd cywir y corff i'w gynnal wrth ddefnyddio gwisgoedd creaduriaid
5. sut i sicrhau bod prosthetigau penodol yn wir ac yn cwrdd â gofynion y cynhyrchiad
6. technegau penodol i'w defnyddio ar gyfer prosthetigau heneiddio
7. y prosesau mae'n rhaid eu cynnal er mwyn cyflawni sganiau digidol neu gastiau byw a'r deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer hyn
8. deunydd a thechnegau cerfio, mowldio a chastio
9. pwysigrwydd mygydau tân a'u gwneuthuriad er mwyn eu defnyddio mewn stỳnt llosgi corff
10. cyflenwadau ac offer aer
11. canlyniadau posibl o beidio â defnyddio deunyddiau yn briodol neu gywir a'r mesurau i'w dilyn ar unwaith
12. adweithiau alergaidd posibl all ddigwydd wrth ddefnyddio prosthetigau, sut i'w hadnabod a sut i weithredu o ganlyniad
13. sut i gynnal profion eang mewn amgylchedd gweithdy addas a phwysigrwydd cofnodi neu wneud fideo o bob prawf er mwyn osgoi unrhyw berygl diangen
14. sut i dynnu colur a/neu brosthetig yn ddiogel
15. animatroneg a'u defnydd wrth greu prosthetig effeithiau arbennig
16. defnydd celfi toradwy fel gwydr a chelfi seramig
17. beth mae modd ei gyflawni trwy ôl-gynhyrchu ac effeithiau arbennig ar gyfer yr effaith ofynnol

Creu effaith brosthetig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPSFX7 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Uwch Dechnegydd Effeithiau Arbennig, Technegydd Effeithiau Arbennig, Swyddog Effeithiau Arbennig dan Hyfforddiant, Arolygydd Effeithiau Arbennig |
| **Cyfres/Set** | Effeithiau Arbennig Ffisegol |
| **Geiriau Allweddol** | effeithiau arbennig ffisegol; dylunio; cynllunio, effeithiau; creu; effaith brosthetig; celfi; cynhyrchiad; dadansoddi sgript; cyllideb; rheoli risg; asesu risg; adwaith; |